Papur Bwrdd

03 Ebrill 2014

Teitl y Papur	**Strategaeth Pobl**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B O 27.14**
Paratowyd y Papur Gan:	Steve Burton

Diben y Papur:	**Penderfynu**
Argymhelliad:	Derbyn y Strategaeth Pobl
Angen Penderfyniad:	Os yn gymwys

Effaith: Noder - efallai na fydd pob pennawd yn gymwys i'r testun	**Effaith ar yr Amgylchedd** Mae'r Strategaeth Pobl yn sicrhau ein bod yn bodloni anghenion y busnes drwy'r camau a gymerir er mwyn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol **Effaith ar yr Economi** Mae'r Strategaeth Pobl yn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyflogwr a ffefrir er mwyn denu a chadw pobl sy'n gweithio i CNC ac yn helpu economi ehangach Cymru drwy hynny **Effaith ar Bobl a Chymunedau** Mae'r Strategaeth Pobl yn helpu i gynnal morâl ac yn helpu i sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei gyflawni **Effaith ar Wybodaeth** Mae'r Strategaeth Pobl yn sicrhau ein bod yn datblygu'n pobl ac yn rhannu arferion gorau ar hyd a lled CNC

Mater

1. Er mwyn i Gyfoeth Naturiol Cymru allu wynebu heriau sylweddol y Cynllun Corfforaethol, mae angen nodi gofynion gweithredu mewn perthynas â phobl. Mae'r Strategaeth Pobl hon yn nodi'r elfennau allweddol mewn perthynas â phobl er mwyn cefnogi amcanion y Cynllun Corfforaethol

Crynodeb

2. Er mwyn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol mae arnom angen rheolwyr ac arweinwyr da i sicrhau bod perfformiad yn cael ei gynnal a'i wella. Rydym yn cydnabod yr angen i aildrefnu ac, fel rhan o'r broses honno, mae'n hanfodol bod ein pobl yn cael arweiniad da, yn ymgysylltu ac yn deall eu cyfraniad i wireddu'n blaenoriaethau

3. Rydym yn wynebu heriau sylweddol mewn perthynas â niferoedd ein gweithlu a thargedau arbedion effeithlonrwydd. Ar yr un pryd disgwylir i ni wella'r hyn a gyflawnir ar gyfer Cymru, creu gwell canlyniadau i Gymru a gwell gwerth am arian i Gymru. Yn y cyd-destun hwnnw mae angen i ni sicrhau ein bod yn parhau i fod yn sefydliad hyblyg sy'n gallu ymateb i'r blaenoriaethau a nodwyd gennym yn y Cynllun Corfforaethol. Mae angen i'n pobl, a'r arferion a ddatblygir gennym, adlewyrchu ein hanghenion busnes mewnol er mwyn helpu i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

4. Er ein bod yn sefydliad sydd â sgiliau uchel, mae yna feysydd ble mae angen i ni wella'n sgiliau ymhellach. Mae hyn yn hanfodol os ydym am wireddu'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol - ar yr un pryd mae angen i ni gynnal lefel bresennol ein proffesiynoldeb. Ar yr un pryd mae angen i ni hefyd barhau i fod yn sefydliad sydd yn dysgu ac sydd yn esiampl, a rhannu'n gwybodaeth a'n harferion gyda'n rhanddeiliaid a'n cymunedau.

5. Mae'r Strategaeth Pobl yn cydnabod yr angen i fod yn sefydliad amrywiol a chynhwysol. Mae'n cefnogi blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â bod yn gyflogwr a ffefrir, a chynnal prentisiaethau sydd yn y pen draw yn helpu cymunedau ac economi Cymru.

6. Mae'r Strategaeth Pobl yn cydnabod na all un person neu dîm wneud hyn. Felly, os ydym am gyflawni'r Strategaeth Pobl a'r Cynllun Corfforaethol yn y pen draw, mae'n rhaid i bawb ddilyn y camau a nodir yn y Strategaeth Pobl

Cefndir

7. Derbyniodd cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd nodyn cysyniad ar gyfer datblygu'r Strategaeth Pobl. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw mae gwaith wedi cael ei wneud er mwyn deall yn well yr agweddau yn y Cynllun Corfforaethol sy'n ymwneud â phobl. Mae'r Strategaeth Pobl yn strategaeth ategol allweddol sy'n helpu i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol

Camau Nesaf

8. Bydd cynllunio camau sefydliadol manwl pellach yn cael ei wneud er mwyn nodi'r holl amcanion blynyddol. Bydd y rhain, pan fo'n angenrheidiol, yn cael eu hychwanegu i Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth yn ogystal â Chynlluniau Cyflawni Personol mewn rhai achosion.

9. Byddwn yn gweithio mewn Partneriaeth ag arweinwyr busnes gweithredol yn ogystal ag Undebau Llafur wrth ddatblygu'r camau hyn.

Risgiau

10. Y risg fwyaf yw i berchnogaeth o'r Strategaeth Pobl gael ei ystyried fel rhywbeth sy'n perthyn i'r ODPM yn hytrach na'n pobl ni, ac effaith hynny wedyn fyddai methu cyflawni elfennau o'r Cynllun Corfforaethol.

Goblygiadau Ariannol

11. Wrth ystyried pob cam, bydd asesiad ariannol o'r gost yn cael ei ystyried fel ffactor.

Cyfathrebu

12. Wrth gwblhau'r Strategaeth Pobl - bydd cynllun cyfathrebu'n cael ei ddatblygu i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u strategaeth a'u cyfrifoldebau.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

13. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyflawn yn cael ei gynnal cyn lansio'r Strategaeth Pobl.